INVISIBLE (CARDIFF·CAERDYDD)

Caerdydd Anweledig
Galwad i Werthuswyr

INVISIBLE (CARDIFF·CAERDYDD)

Rydyn ni'n gwahodd ceisiadau gan gwmnïau ymgynghori, unigolion, sefydliadau addysgol a thimau ymgynghori ad hoc i weithio gyda ni i werthuso ein Prosiect Caerdydd Anweledig, a lansiodd ym mis Rhagfyr 2022. Bydd y broses werthuso yn casglu data cyfoes, arolygon a chyfweliadau a gynhaliwyd ym mlwyddyn gyntaf y prosiect ac yn arwain ar gyfweliadau a dadansoddiadau yn ystod ail flwyddyn y prosiect gan arwain at adroddiad terfynol ar gyfer Cronfa Treftadaeth y Loteri.

Ffi

£4,500 (am 15 diwrnod sy'n cynnwys treuliau)

Amserlen

15 diwrnod rhwng Mai a Thachwedd 2024

Pwy ydyn ni

Elusen yw The Wallich sy'n helpu pobl sy'n wynebu digartrefedd yng Nghymru. Rydyn ni'n cynnig llety, cymorth lle bo'r angen a rhaglenni arloesol eraill fel mentora cymheiriaid a phrosiectau dysgu, gyda'r nod o gael pobl oddi ar y strydoedd, cadw pobl oddi ar y strydoedd a chreu cyfleoedd.

Mae The Wallich wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Dinasoedd Anweledig i weithredu masnachfraint gyntaf eu menter gymdeithasol lwyddiannus yng Nghymru, sy'n cynnig hyfforddiant i bobl sy'n cael eu heffeithio gan ddigartrefedd i ddod yn dywyswyr yn y ddinas a chreu eu taith eu hunain yng Nghaerdydd. Y nod yw codi ymwybyddiaeth o ddigartrefedd tra'n cefnogi pobl i gyflogaeth neu fwy o hunanhyder.

Mae Caerdydd Anweledig yn cael ei ariannu ar hyn o bryd gan grant Cronfa Treftadaeth y Loteri. Mae hyn yn rhoi cymhorthdal ar gyfer cyflogau dau aelod o staff, Rheolwr y Gwasanaeth a Chymorth Prosiect, yn ogystal â chostau hyfforddi a chostau rhedeg. Mae'r cyllid hwn i fod i ddod i ben ym mis Tachwedd 2024.

Mae'r holl incwm tocynnau a dderbynnir yn mynd tuag at dalu tywyswyr a chynnig hyfforddiant a chyfleoedd pellach. Mae hon yn fenter ddielw ym mlwyddyn gyntaf ei datblygiad, gyda'r bwriad y gallai ddod yn ffrwd incwm ddibynadwy er mwyn i'r elusen gyflawni ei gwaith.

Mae'r prosiect hwn yn gweithio mewn partneriaeth â Dinasoedd Anweledig, The Wallich, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ac Archifau Morgannwg. Mae'r rhaglen yn cynnig gweithdai a sesiynau sgiliau i hyfforddi pobl sy'n cael eu heffeithio gan ddigartrefedd i ddod yn dywyswyr teithiau cerdded. Nid pawb sy'n mynychu'r rhaglen hyfforddi fydd yn dod yn dywyswyr, ond bydd pawb sy'n cymryd rhan yn cael cyfle i ymgysylltu a datblygu sgiliau treftadaeth, gwella eu hyder a'u hunan-barch a chael mynediad at gyfleoedd gwirfoddoli o fewn sefydliadau treftadaeth sy'n bartneriaid.

Mae'r prosiect hwn yn rhoi cyfle unigryw i bobl sy'n profi digartrefedd neu mewn perygl o wynebu digartrefedd i ymgysylltu a datblygu sgiliau treftadaeth, gwella hyder a chael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy â chymorth o fewn y sector treftadaeth. Mae pobl sy'n profi digartrefedd hefyd yn profi anfanteision cymdeithasol a gwahaniaethu sy'n eu heithrio rhag cael mynediad at weithgareddau cymdeithasol a diwylliannol. Bydd y prosiect hwn yn codi ymwybyddiaeth o ddigartrefedd drwy hyrwyddo prosiectau pob sefydliad partner a dehongliad uniongyrchol y rhai sy'n arbenigwyr trwy brofiad.

Amlinelliad o’r gwerthusiad

Nod y gwerthusiad yw:

- Monitro ac adrodd ar effaith y rhaglen hyfforddi ar gyfranogwyr, cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid allweddol
- Mesur effaith y prosiect ar bobl sydd â phrofiad bywyd o ddigartrefedd i gynyddu mynediad at ddiwylliant a threftadaeth
- Nodi effaith y prosiect ar dwristiaeth yng Nghaerdydd a’r potensial i’r Fenter Gymdeithasol fod yn llwyddiannus yn y dyfodol
- Drwy ddefnyddio tystiolaeth o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol, dadansoddi i ba raddau y mae'r prosiect wedi cyrraedd y nodau arfaethedig a nodir yng nghais Cronfa Treftadaeth y Loteri

Bydd y gwerthusiad yn cael ei gynnal rhwng Mai a Thachwedd 2024 a bydd angen iddo gynnwys y canlynol:

- Mynediad at ddata cyfoes, gan gynnwys sylw yn y cyfryngau a chyfweliadau ac arolygon a gynhaliwyd yn 2023 i nodi unrhyw fylchau o ran deall effaith y prosiect er mwyn paratoi ar gyfer ail gyfnod gwerthuso
- Cyfweld / arolygu hyfforddeion a rhanddeiliaid cyfredol wrth i daith newydd bosib gael ei datblygu a datblygu astudiaethau achos lle bo'n briodol
- Dadansoddi effaith ar ymwelwyr, gan gynnwys adroddiadau gwerthiant, refeniw ac adborth drwy TripAdvisor
- Ysgrifennu adroddiad gwerthuso ar ddiwedd y prosiect

Sgiliau a phrofiad

Mae'r gwerthusiad yn gofyn am ddefnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n ymgorffori technegau ansoddol a meintiol a ffynonellau data cynradd ac eilaidd.

Bydd y gwerthusiad yn cynnwys cyfweliadau wyneb yn wyneb â phobl sy'n ymwneud â'r prosiect am wahanol resymau. Bydd angen cynnal y rhain yn unol â ffordd The Wallich o weithio sy’n ystyriol o drawma, a byddai profiad o weithio fel hyn yn gaffaeliad i’r broses werthuso. Mae trawsgrifio dilynol, arsylwadau, datblygu astudiaethau achos ac adrodd yn feysydd allweddol o brofiad.

Bydd y broses werthuso yn tynnu ar ddadansoddiad data a mewnbwn gan groesgyfeirio at y cynllun busnes a nodau'r prosiect yn ystod pob cam, a bydd agwedd drefnus yn hanfodol i wneud hyn.

Bydd angen i chi ddangos y sgiliau a'r profiad canlynol:

- Sgiliau cryf mewn cynllunio ymchwil a strategaethau ymchwil ansoddol a meintiol
- Gwybodaeth a phrofiad o ddulliau gwerthuso ffurfiannol, proses a chrynodol
- Profiad o ddatblygu dulliau ymarferol / hyblyg at ymchwil gwerthuso, yn enwedig yng nghyd-destun prosiectau cyfnod cynnar
- Profiad o gynnal ymchwil gyda phobl sy'n agored i niwed a'r rheini sydd â phrofiadau bywyd
- Profiad o ymgysylltu â buddiolwyr lle gall iaith fod yn rhwystr
- Profiad o werthuso prosiectau o fewn y sector treftadaeth a diwylliant
- Sgiliau a phrofiad blaenorol o ysgrifennu adroddiadau o safon y gellir eu cyhoeddi a chyflwyno canfyddiadau ymchwil i gynulleidfaoedd gwahanol
- Sgiliau a phrofiad blaenorol o gefnogi sefydliadau i wella eu dealltwriaeth a'u dulliau gwerthuso eu hunain
- Profiad o werthuso prosiectau sy'n cynnwys consortiwm o sefydliadau a rhanddeiliaid

Sut i wneud cais

Anfonwch gais ar e-bost at Reolwr Caerdydd Anweledig, Julia Thomas, gan gynnwys y manylion canlynol:

1) Pam mae gennych ddiddordeb mewn cynnal y gwerthusiad (uchafswm o 500 gair)
2) Sgiliau a phrofiad perthnasol sydd gennych, gan gyfeirio at brosiectau penodol (uchafswm o 500 gair)
3) Amserlen o ddydd i ddydd i ddangos sut fyddech chi'n defnyddio'r 15 diwrnod, gan gynnwys methodoleg a thasgau ymarferol
4) Dylech gynnwys unrhyw ddolenni i wefannau neu atodiadau sy'n cefnogi eich addasrwydd ar gyfer y gwerthusiad (CV / enghreifftiau o waith gwerthuso blaenorol - hyd at ddwy enghraifft)

Dyddiad cau: Anfonwch at julia.thomas@thewallich.net
erbyn dydd Llun 11 Mawrth, 5pm

Bydd ymgeiswyr y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfarfod anffurfiol i drafod eu cais gyda thîm Caerdydd Anweledig a phanel o randdeiliaid a chyfranogwyr ar ddydd Gwener 15 Mawrth (naill ai'n bersonol neu ar Teams yn dibynnu ar argaeledd).

Bydd y panel yn asesu ac yn sgorio pob cais a ddaw i law. Bydd ceisiadau yn cael eu gwerthuso ar sail ansawdd a gwerth am arian, yn unol â'r meini prawf a amlinellir isod.

Bydd pob adran yn cael ei phwysoli a'i sgorio allan o 5 yn unol â'r matrics sgorio isod. Bydd y tri chyflenwr sy'n sgorio uchaf yn cael eu gwahodd i gyfarfod i gael mwy o fanylion am eu

haddasrwydd i gyflawni'r gwaith a fydd yn cael ei ystyried wrth wneud y penderfyniad dethol terfynol.

Os bydd ymateb i unrhyw gwestiwn yn derbyn sgôr o sero, bydd y tendr yn cael ei anghymhwyso ac ni chaiff ei ystyried. Bydd tendrau sydd â sgôr cyffredinol o neu lai yn cael eu hanghymhwyso ac ni chânt eu hystyried.

Meini prawf	Sgôr Uchaf	Pwysoliad
Profiad ac arbenigedd	5	40%
Wedi dangos dealltwriaeth o nodau ac amcanion y prosiect	5	25%
Ansawdd ac addasrwydd y fethodoleg arfaethedig	5	20%
Gwerth am arian	5	15%
CYFANSYMIAU		100%

Matrics Sgorio

Gallu	Tystiolaeth	Sgôr
Rhagorol	Ymateb cynhwysfawr a manwl gyda thystiolaeth gref ac enghreifftiau lluosog o gyflawni yn erbyn gofynion y prosiect.	5
Da	Bodlonwyd y meini prawf a darparwyd tystiolaeth i gefnogi atebion. Mae'r atebion yn dangos profiad perthnasol.	4
Boddhaol	Meini prawf wedi'u bodloni gan fwyaf ond prin yw'r dystiolaeth / enghreifftiau a ddarparwyd.	3
Gwan	Mae'r ymateb a ddarparwyd yn cynnwys datganiadau generig ac ychydig o dystiolaeth a ddarparwyd i bennu gallu.	2
Annigonol	Mae tystiolaeth wael/ dealltwriaeth brin o gwestiynau yn codi cwestiynau ynghylch a fyddai'r cyflenwr yn gallu bodloni anghenion y contract.	1
Ddim yn dderbyniol	Dim ymateb / cyfeiriad at y cwestiwn neu ymateb annerbyniol nad yw'n bodloni'r gofynion mewn unrhyw ffordd.	0

Dolenni Defnyddiol

The Wallich | Digartrefedd yng Nghymru ac Elusen cysgu allan

''Grymuso'r Digartref drwy Deithiau Unigryw o'r Ddinas gan Dywyswyr Lleol | Dinasoedd Anweledig (invisible-cities.org) <https://invisible-cities.org/>

TEITHIAU ANWELEDIG (CAERDYDD) – Popeth sydd angen i chi ei wybod CYN i chi fynd (tripadvisor.co.uk)